# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ceredigion Pupil Referral Unit

Dyddiad yr arolygiad: 19/01/2026

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Uned Cyfeirio Disgyblion (UCD) Ceredigion yn darparu amgylchedd digynnwrf a chefnogol lle mae disgyblion yn teimlo'u bod yn cael eu hadnabod, eu gwerthfawrogi, ac y gwrandewir arnynt. Mae arweinwyr a staff yn rhoi lles disgyblion yn ganolog i'w gwaith, gan sefydlu perthnasoedd cryf ac ymddiriedus sy'n helpu disgyblion i ymgysylltu â dysgu a datblygu hyder. Mae'r rhan fwyaf o addysgu yn anogol a phwrpasol, ac mae staff yn gweithredu fel modelau rôl cadarnhaol ac yn rheoli ymddygiad a rheoleiddio emosiynol yn effeithiol. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn, yn datblygu medrau pwysig, ac yn ennill cymwysterau ystyrlon sy'n eu paratoi'n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu bywydau.

Mae llawer o ddisgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd, medrau digidol, creadigrwydd, datrys problemau, annibyniaeth a medrau ymarferol trwy ystod eang o wersi, prosiectau a gweithgareddau oddi ar y safle. Maent yn elwa ar ddulliau cyffrous, gan gynnwys realiti rhithwir, gwaith coetir, sesiynau campfa, coginio, cyrsiau galwedigaethol a gweithgareddau cyfoethogi, sy'n gwneud dysgu'n ddifyr a pherthnasol. Mae disgyblion yn dysgu am berthnasoedd, iechyd rhywiol, diogelwch ar-lein a chydsynio, a gallant gymryd rhan mewn ystod o brofiadau trwy gynllun gwobrwyo'r ysgol a phartneriaethau allanol.

Mae'r UCD yn cynorthwyo disgyblion i baratoi ar gyfer eu camau nesaf trwy gysylltiadau cryf â cholegau lleol, Gyrfa Cymru a darparwyr addysg eraill. Mae ychydig o ddisgyblion yn cwblhau lleoliadau profiad gwaith, lle bo'n briodol.

Mae staff yn yr UCD yn darparu cymorth unigol ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol gan ddefnyddio strategaethau fel amserlenni gweledol, dietau synhwyraidd ac offer ffidlan, tra'n annog disgyblion i gymryd rhan mewn penderfyniadau am eu dysgu.

Mae'r UCD yn ddiogel a gofalgar, i raddau helaeth. Mae staff yn defnyddio dulliau adferol a hyfforddi emosiynol yn effeithiol i helpu disgyblion i reoli ymddygiad, ac mae trefniadau diogelu yn gadarn. Mae bron pob un o'r staff yn dangos gwybodaeth gadarn am weithdrefnau diogelu, ac fe gaiff pryderon eu hadolygu'n systematig. Mae presenoldeb yn destun pryder o hyd, ac mae arweinwyr yn parhau i weithio'n agos gyda theuluoedd i wella presenoldeb.

Mae arweinwyr wedi ymrwymo i les disgyblion, ac mae dysgu proffesiynol yn helpu staff i ddiwallu anghenion cymhleth disgyblion. Fodd bynnag, mae capasiti arweinyddiaeth wedi'i gyfyngu gan ddibyniaeth ar nifer fach o unigolion allweddol, sy'n effeithio ar gynllunio strategol a gwerthuso effaith mentrau yn gyson. Mae arweinwyr yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth i lywio hunanwerthuso a chynllunio gwelliant, sy'n rhoi dealltwriaeth wybodus iddynt o arfer, ond oherwydd nad ydynt yn gwerthuso effaith gweithredoedd yn gyson dros gyfnod, nid ydynt bob amser yn glir ynghylch pa strategaethau sy'n cael yr effaith fwyaf ar gynnydd a safonau disgyblion.

Mae'r pwyllgor rheoli yn ymroddgar ac yn ymgysylltu'n weithredol â'r UCD, ond mae gormod o ddibyniaeth ar wybodaeth arweinwyr yn cyfyngu ar her effeithiol, gan arwain at oruchwyliaeth, atebolrwydd a gwerthuso strategol anghyson, ac yn lleihau ei effaith ar welliant a gwerth am arian.

Ar draws yr UCD, mae tegwch y cynnig ar gyfer darpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn anghyson.

Er bod arweinwyr yn buddsoddi mewn darparu amgylcheddau dysgu anogol i roi hwb i ddisgyblion i deimlo'n ddiogel ac yn ddigynnwrf, nid yw'r trefniadau presennol o ran adeiladau yn cefnogi lles a chyfleoedd dysgu disgyblion yn ddigon da.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud pedwar argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella:**

A1 Gwella cysondeb ansawdd yr addysgu a chryfhau'r cynllunio a'r ddarpariaeth ar gyfer medrau

A2 Gwella presenoldeb

A3 Cryfhau trylwyredd strategol a gwerthusol arweinwyr ar bob lefel, fel bod cynllunio gwelliant yn canolbwyntio'n graffach ar effaith

A4 Cryfhau rôl y pwyllgor rheoli

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl: (a) mewn unrhyw fformat neu gyfrwng; a (b) gellir ei gyfieithu gan neu ar ran darparwr addysg a/neu hyfforddiant y mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef i unrhyw iaith, ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio ac/neu ei gyfieithu'n gywir ym mhob achos ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Ym mhob achos, rhaid cydnabod y deunydd (gan gynnwys unrhyw gyfieithiad) fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 23/03/2026